| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 15 Ionawr 2026 |
| Pwnc: | Papur Pwnc Mwynau |
| Aelod(au) Portffolio: | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cynnwys y papur pwnc ar fwynau sy'n cefnogi'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Y papur:

- adolygu'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â datblygu mwynau;
- mynd i'r afael â'r gofyniad i gynnal banc tir o ddeunydd craig wedi'u falu am 10 mlynedd am gyfnod cynllun bob datblygiad;
- ystyried effeithiolrwydd polisïau mwynau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: a
- adnabod newidiadau mewn amgylchiadau a all arwain at fod angen gwneud addasiadau i bolisi neu ddyraniadau tir.

## 2.0 Penderfyniad sydd ei angen

2.1 Mae'r wybodaeth, amcanion ac opsiynau yr adroddwyd arnynt yn y papur wedi'u nodi a'u derbyn gan y Pwyllgor fel y sylfaen ar gyfer datblygu polisïau cynllunio mwynau fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

## 3.0 Cyd-destun y polisi mwynau

3.1 Mae'r papur yn egluro cyd-destun y polisi ar gyfer cynllunio mwynau, ac mae'n rhestru'r hierarchaeth ganlynol o ddogfennau polisi a gofynion statudol cenedlaethol a rhanbarthol fel sylfaen i arwain y gwaith o ddatblygu polisïau cynllunio gwastraff cynaliadwy:

- Polisi Cynllunio Cymru (PPW12):

- Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau
- Mapiau Diogelu Mwynau Cenedlaethol (NASM)
- 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru

3.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar hyn o bryd yn darparu'r fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniad am geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â gwastraff ac mae'n cynnwys pum polisi penodol sy'n ymwneud â mwynau. Y pynciau yw:

- **MWYN 1 – Diogelu Adnoddau Mwynau** - yn dynodi a diogelu adnoddau agregau Categori 1 a 2 rhag cael eu sterileiddio.
- **MWYN 2 - Diogelu Seilwaith Mwynau** - gwarchod glannau, pen rheilffyrdd, a chyfleusterau critigol cysylltiedig wrth brosesu, dyrannu ac ymdrin â mwynau.
- **MWYN 3 - Datblygu Mwynau** - cefnogi cynigion i weithio efo mwynau ar safleoedd penodol ac ardaloedd sydd wedi'u diogelu, yn amodol ar amodau amgylcheddol, mwynder ac adfer llym.
- **MWYN 4 - Meini Prawf ar gyfer Safleoedd Mwynau Newydd** - yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer asesu safleoedd neu estyniadau mwynau newydd, gan gynnwys angen, gallu amgylcheddol amddiffyniad cymunedol amlwg.
- **MWYN 5 - Lleiniau Clustogi** - yn diffinio lleiniau clustogi o amgylch safleoedd mwynau wedi'u dyrannu neu eu hawdurdodi er mwyn gwarchod defnydd sensitif a hyfywedd gweithredol chwareli.

3.3. Yn ogystal â dogfennau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mae adroddiadau sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu agregau, a baratowyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd (NWaRAWP), yn darparu trosolwg o gynhyrchiant er mwyn bodloni'r galw am gynnyrch agregau. Cyhoeddwyd yr adroddiadau diweddaraf yn 2023 a 2025.

## 4.0 Cynhyrchu mwynau ar Ynys Môn

4.1 Mae daeareg Ynys Môn yn amrywiol iawn, ac mae hyn yn arwain at amrywiaeth eang o fwynau'n cael eu cynhyrchu. Cynhyrchir agregau'n bennaf, ond mae deunydd cerrig adeiladu a walio hefyd yn cael eu cynhyrchu. Mae caniatâd cynllunio dilys ar gyfer echdynnu clai a mawn yn bodoli yn ogystal â chaniatâd i echdynnu mwynau metalog ym Mynydd Parys.

4.2 Mae dyddodion glo yn bodoli o dan Cors Ddyga, ond ni fyddai'n hyfyw yn economaidd i echdynnu'r rhain ac mae'n annhebygol y bydd y sefyllfa'n newid yn y tymor byr i ganolig.

## 5.0 Dosrannu

5.1 Mae 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn dosrannu gofyniad blynyddol o 321,000 tunnell o ddeunydd craig wedi'i falu bob blwyddyn i Ynys Môn, sy'n gyfartal â 8.025 miliwn tunnell hyd at 2039. Cafodd y dosraniad hwn ei gyfrifo gan ddefnyddio methodoleg Cynllunio-Monitro-Rheoli, sy'n defnyddio data a gasglwyd drwy Arolygon Blynyddol gan Weithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan weithredwr lleol (Chwefror 2025) yn dangos bod tri prif safle sy'n cynhyrchu agregau wedi cyd gynhyrchu mwy na dwbl dosraniad Datganiad Technegol Rhanbarthol.

5.2 Mae gweithredwyr yn rhagweld y bydd y cronfeydd wrth gefn a awdurdodir sy'n weddill rhwng 4.3 a 5.3 miliwn tunnell, sy'n gyfartal â chyflenwad am oddeutu 5-7 mlynedd ar gyfraddau. Mae hyn y sylweddol is na'r gofyniad lleiafswm o 10 mlynedd MTAN 1, ac yn llawer is na thybiaethau 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru o fanc tir 25 mlynedd ar gyfer deunydd craig wedi'i falu (10 mlynedd yn ogystal â 15 mlynedd ar gyfer cyfnod y cynllun).

## 6.0 Newidiadau cyd-destunol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

6.1 Mae sawl newid wedi'i adnabod ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2017, yn enwedig dwysedd cynhyrchiant mewn llond llaw o chwareli, tra bo safleoedd eraill wedi'u disbyddu neu eu cadw mewn cyflwr da. Yn ychwanegol at hyn, mae pwysau sylweddol yn bodoli o safbwynt seilwaith a thai, effaith cyfyngiadau amgylcheddol a'r angen i gymodi tybiaethau 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda thystiolaeth ddiweddar, sy'n fwy lleol.

6.2 Mae dibynnu'n ormodol ar y dair brif chwarel yn peri disbyddu cronfeydd wrth gefn yn gynt, yn enwedig os nad oes unrhyw gronfeydd wrth gefn eraill yn cael eu hawdurdodi yn y cyfamser. Gall hyn arwain at fygythiadau i wydnwch cyflenwi. Ymhellach at hynny, byddai'r galw gan brosiectau seilwaith mawr yn gallu cynyddu'r galw am agregau yn uwch na'r lefelau dosrannu cyfredol.

## 7.0 Cyflenwad mwynau

7.1 Mae adran gyntaf yr adroddiad hwn yn amlygu'r diffygion posibl a all godi mewn banc tir os bydd prosiectau seilwaith/adeiladu mawr yn parhau a bod y galw am fwynau'n cynyddu o ganlyniad i hynny. Er bod 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru yn dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw ddyraniad ar gyfer echdynnu mwynau ar Ynys Môn, mae tystiolaeth gan weithredwyr yn dangos bod cyfraddau dosrannu dros y blynyddoedd wedi cynyddu sy'n golygu bod cronfeydd wrth gefn wedi disbyddu'n gynt na'r disgwyl heb unrhyw ganiatâd wedi'i roi yn lle'r cronfeydd wrth gefn.

7.2 Mae cyfyngiadau amgylcheddol yn atal chwareli cerrig calch rhag cael eu hymestyn am eu bod yn agos at ACA Corsydd Môn. Oherwydd hyn, mae'n debygol y bydd y diffyg adnoddau cyfredol yn gwaethygu, fydd yn effeithio ar gynnal a chadw treftadaeth adeiledig ac atgyweirio strwythurau hanesyddol.

7.3 O ystyried yr uchod, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol, o ran cyflenwi mwynau, geisio:

- Cynnal banc tir am leiafswm o 10 mlynedd;
- Casglu datganiadau blynyddol gan weithredwyr i gynnal amcangyfrifon presennol o gronfeydd;
- Eithrio neu ryddhau cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cyfyngu oherwydd dynodiadau amgylcheddol;
- Cynllun ar gyfer sefyllfa o ddiffygion;
- Cydbwyso anghenion treftadaeth;
- Blaenoriaethu estyniadau i safleoedd presennol dros safleoedd newydd;
- Cydlynu cydweithio is-ranbarthol a hyblygrwydd traws-ffiniol;
- Cydnabod ailysgogiadau posibl; ac
- Ystyried dyrannu meysydd a ffafrir neu feysydd o ymchwil.

## 8.0 Lleiniau Clustogi

8.1 MTAN1 yn gweithredu lleiniau clustogi awtomatig o amgylch safleoedd mwynau. Mae'r rhain wedi'u gosod yn 200m ar gyfer chwareli craig galed a 100m ar gyfer safleoedd tywod a gro. Er nad oes safleoedd tywod a gro ar yr ynys, gellir defnyddio'r rheol 100m ar gyfer safleoedd mawn a chlai, ac mae dau safle o'r fath yn bodoli. Defnyddir lleiniau clustogi i gynnal a chadw mwynder cymunedau cyfagos a gwarchod treftadaeth a diddordebau amgylcheddol a safleoedd cloddio hanesyddol.

8.2 O ran lleiniau clustogi, dylai'r cynllun newydd edrych ar:

- Gadw pellteroedd rhagosodedig;
- Mapio lleiniau'n gynhwysfawr;
- Integreiddio amddiffyniad ecolegol;
- Ymgorffori lleiniau yn y strategaeth gyflenwi;
- Caniatáu hyblygrwydd ar gyfer estyniadau; a
- Egluro pwrpas dyblyg lleiniau clustogi.

## 9.0 Monitro

9.1 Mae monitro safle yn ofyniad statudol, a heb fonitro uniongyrchol sy'n benodol i'r safle mae'r Cyngor mewn perygl a danseilio cyfraddau disbyddu cronfeydd wrth gefn a methu rhybuddion cynnar o ddiffyg yn y cyflenwad. Oherwydd hyn, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gynnwys polisi monitro sydd yn:

- Egluro pwrpas monitro:
- Darparu manylion ar ffynonellau data - mandadu defnyddio:
  - Data gan Weithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd ac 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer meincnodi rhanbarthol.

    - Datganiadau blynyddol cyfrinachol gan weithredwyr ar gyfer cronfeydd wrth gefn penodol i Ynys Môn, gwerthiannau a statws gweithredol.
    - Arolygon drôn blynyddol i ddarparu amcan brisiau ar gyfer disbyddiad a maint pentyrrau.
- Darparu adroddiadau - Ymrwymo i gyhoeddi dangosyddion Gweithgor Agregau Rhanbarthol y Gogledd ac 2ail Adolygiad Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru a banc tir effeithiol ar gyfer Ynys Môn yn unig yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.
- Gosod ysgogwyr gweithredu - Sefydlu’r trothwy clir ar gyfer ymyraethau
- Cydnabod craig dreftadaeth/dimensiwn – Sefydlu llinyn monitro cyfochrog ar gyfer safleoedd ar raddfa fach, gan gofnodi eu statws gweithredol a'u cronfeydd wrth gefn ar wahân.
- Cyswllt â pholisi cyflenwi – Egluro y bydd canlyniadau monitro yn llywio penderfyniadau’n uniongyrchol ar ddyraniadau cyflenwad mwynau, rhyddhau ardaloedd gwarchodedig, ac addasiadau i’r lleiniau clustogi.
- Sicrhau tryloywder gweithredol – Defnyddio allbynnau monitro i ddarparu diweddariadau cyhoeddus ar sefyllfa cyflenwad mwynau Ynys Môn, gan ddiogelu data sy'n sensitif yn fasnachol rhag gweithredwyr.

**10.0 Casgliad**

10.1 Mae Ynys Môn yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch mwynau gyda nifer o safleoedd gweithredol a segur ar yr ynys.

10.2 Ar sail gwybodaeth y gweithredwr o ran darpariaeth agregau, mae anghysondeb rhwng y ffigwr dosrannu a ddarparwyd ar gyfer Ynys Môn yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol a chynhyrchiant blynyddol diweddar. Mae gan hyn y potensial i gyflymu cyfradd disbyddu’r cronfeydd wrth gefn a ganiateir a bygwth gwydnwch y cyflenwad.

10.3 O ganlyniad i gau a rhoi rhai safleoedd o'r neilltu, mae pwysau i ddiwallu'r galw yn cael ei roi fwyfwy ar nifer lai o safleoedd a'r canlyniad yw bod eu cronfeydd wrth gefn yn disbyddu'n gyflymach.

10.4 Mae gan brosiectau seilwaith ac adeiladu mawr disgwyliedig y potensial i roi pwysau anghymesur ar y safleoedd cynhyrchiol sy'n weddill.

10.5 Mae amcangyfrifon cyfredol, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan weithredwyr, yn awgrymu bod cronfeydd o graig galed ar Ynys Môn yn llai na gofyniad banc tir MTAN1 o gyflenwad deng mlynedd.

10.6 Dylid cadw lleiniau clustogi ar bellteroedd rhagosodedig (100m a 200m) o amgylch safleoedd cynhyrchu mwynau a'u cymhwyso i unrhyw ganiatadau newydd a roddir.

10.7 Dylid monitro safleoedd yn rheolaidd i ddeall cyfraddau disbyddu adnoddau yn well ac i sbarduno'r angen i adolygu darpariaeth banc tir yn unol â gofynion MTAN1.

## 11.0 Argymhelliad

11.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad hwn ynghyd â chanfyddiadau'r papur pwnc a'i gymeradwyo fel sail ar gyfer datblygu polisi cynllunio mwynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymr
u

# Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn 2024-2039

# Papur Pwnc - Mwynau

## Drafft f1.1

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg
This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn   cyngorynysmô   cyngorynysmô   cyngorynysmô

# Hanes y ddogfen

| Fersiwn | Awdur | Adolygwyd gan | Awdurdodwyd gan | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | RWW | | | Drafft cyntaf ar gyfer dosbarthu ac arsylwadau |
| 1.1 | RWW | | | Ymgorffori gwelliannau yn dilyn adolygiadau drafft cyntaf |
| | | | | |
| | | | | |

# CYNNWYS

**Tudalen**

**1.0 CYFLWYNIAD**

**2.0 CYD-DESTUN Y POLISI**
- Y Fframwaith Polisi Cenedlaethol
- Trosolwg o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol
- Sefyllfa Ail Adolygiad DTRh (2020)
- Tystiolaeth wedi'i Diweddaru - Data Gweithredwyr 2023 a 2025 NWaRAWP
- Goblygiadau Polisi

**3.0 CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMR)**

**4.0 NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL**
- Pwysau Galw
- Dihysbyddu Cronfeydd vs Tybiaethau DTRh2
- Seilwaith a Dosbarthu
- Goblygiadau Polisi a Monitro

**5.0 DIOGELU**
- Categorïau Adnoddau
- Tywod a Gro
- Cysylltiad â'r Sefyllfa Cyflenwad
- Diogelu Seilwaith
- Cyfeiriad Polisi i'r Dyfodol ar gyfer y CDLl newydd

**6.0 CYFLENWAD MWYNAU**
- Sefyllfa 2il Adolygiad DTRh
- Monitro NWaRAWP 2023
- Cyfrifiad Banc Tir Effeithiol
- Cyfyngiadau ar Ddyraniadau a Chynhyrchu yn y Dyfodol
- Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Cyflenwad Mwynau
- Ceisiadau Cynllunio Cyfredol a Rhai sy'n Dod i'r Amlwg
- Cerrig Dimensiwn a Cherrig Treftadaeth (Chwareli Aberstrecht a Dinmor)
- Mwynau Metelaidd a Mwynau Eraill nad ydynt yn Agregau

**7.0 CLUSTOGFEYDD**
- Fframwaith Polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol
- Canllawiau Polisi Cenedlaethol
- Cysylltiad â'r Sefyllfa Cyflenwad Bresennol
- Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Clustogfeydd

**8.0 MONITRO**
- Llinell Sylfaen y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol
- Materion a Ddatgelwyd gan Dystiolaeth Ddiweddar
- Dull Monitro Cryfach ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd
- Trothwyon Sbardun Cysylltiedig ag Ymateb Polisi

Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Monitro

**Cefndir**

Mae hwn yn un o ystod o bapurau pwnc a baratowyd i gynnig gwybodaeth fanylach ac egluro dull gweithredu'r Cynllun ar gyfer gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y papur hwn yn edrych yn benodol ar Fwynau. Bydd yn egluro'r cefndir a fydd yn helpu i nodi'r materion, yr amcanion a'r opsiynau ar gyfer y Cynllun Adneuo.

Y Cynllun Adneuo yw'r ail gam statudol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r CDLl yn siapio twf cymunedau yn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol a bydd yn nodi'r polisïau a'r dyraniadau tir y bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu hasesu yn eu herbyn.

Bydd y Cynllun Adneuo'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi archwilydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr archwilydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl yn disodli Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur pwnc hwn ar ei ben ei hun neu ar y cyd â'r Papurau Pwnc a Phapurau Cefndir eraill a baratowyd i roi darlun llawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol.

Gallwch gyfeirio at y Papur Pwnc fel sail ar gyfer gwneud sylwadau am y Cynllun Adneuo. Rhaid nodi mai dim ond sylwadau ar y Cynllun Adneuo fydd yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd yn yr Archwiliad Cyhoeddus yn hytrach na sylwadau penodol a wneir ar y Papurau Pwnc.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw un o'r Papurau Pwnc neu Bapurau Cefndir gydag aelod o'r Tîm Polisi Cynllunio, gallwch gysylltu â ni:

planningpolicy@anglesey.llyw.cymru

Yn ysgrifenedig at:
Tîm Polisi Cynllunio (CDLl)
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Ffôn: 01248 752428

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Papur Cefndir Mwynau hwn yn cefnogi'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Ynys Môn 2018-2033. Mae'n adolygu'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer cyflenwi mwynau, yn ystyried effeithiolrwydd polisïau presennol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac yn nodi newidiadau mewn amgylchiadau a allai olygu bod angen diwygio polisi neu ddyraniadau safleoedd. Mae'n adeiladu ar sylfaen Papur Pwnc 11 (Mwynau) a baratowyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2015), ond mae'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu amgylchiadau a thystiolaeth benodol ar Ynys Môn fel awdurdod unigol sy'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.

1.2 Mae mwynau yn elfen hanfodol o economi a seilwaith Ynys Môn. Mae Ynys Môn wedi bod yn allforiwr net o agregau cerrig mâl ers tro byd i farchnadoedd ehangach Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda nifer o chwareli strategol bwysig wedi'u lleoli ar yr ynys. Mae mwynau nid yn unig yn sail i adeiladu tai, ffyrdd a seilwaith mawr newydd, ond maent hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o warchod treftadaeth adeiledig a hunaniaeth ddiwylliannol yr ynys, drwy gyflenwi cynnyrch dimensiwn a phensaernïol unigryw. Mae'r ynys hefyd yn nodedig am ei threftadaeth mwyngloddio metelaidd, sy’n fwyaf amlwg ym Mynydd Parys, a oedd o bwysigrwydd byd-eang fel un o'r canolfannau mwyngloddio copr mwyaf yn ystod y 18fed ganrif. Yn ogystal, mae caniatadau byw yn bodoli ar gyfer echdynnu mawn a marl ym Mrynteg, sy'n adlewyrchu amrywiaeth hanesyddol a pharhaus y gweithgarwch mwynau ar Ynys Môn.

**1.3** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol yn cynnwys y polisïau mwynau allweddol canlynol:

- MWYN 1 - Diogelu Adnoddau Mwynol
- MWYN 2 - Diogelu'r Seilwaith Mwynau
- MWYN 3 - Datblygu Mwynau
- MWYN 4 - Meini Prawf ar gyfer Safleoedd Mwynau Newydd
- MWYN 5 - Clustogfeydd

1.4 Mae'r polisïau hyn yn cyd-fynd â gofynion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN 1), sy'n canolbwyntio ar ddiogelu, cyflenwi cynaliadwy, a lleihau effeithiau amgylcheddol. Maent yn dal yn fan cychwyn cadarn ond mae angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dystiolaeth a'r heriau diweddaraf sy'n wynebu sector mwynau Ynys Môn.

1.5 Mae tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r Ail Adolygiad o Ddatganiadau Technegol Rhanbarthol (DTRh) (2020), Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWaRAWP) 2023, Datganiadau Trwyddedau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithredwyr lleol ym mis Chwefror 2025, yn dangos bod sefyllfa'r cyflenwad ar gyfer Ynys Môn yn fwy cyfyngedig na'r hyn a dybiwyd yn flaenorol. Mae cyfarfodydd gweithredwyr wedi darparu gwybodaeth hanfodol ar lefel safle am gronfeydd gwirioneddol, lefelau cynhyrchu a chyfyngiadau gweithredol, sydd

mewn llawer o achosion yn wahanol i brif ffigurau'r DTRh. Er mwyn gwella tryloywder, gofynnir yn awr i weithredwyr lenwi ffurflenni monitro, wedi'u hategu gan ymweliadau safle a ffurflenni data wedi'u cydlynu gan y Cyngor/Gwasanaeth. Bydd y dull hwn, ynghyd â thechnolegau arolygu newydd, yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLl newydd ac yn sicrhau bod y ffigurau banc tir a dosrannu yn adlewyrchu realiti gweithredol yn hytrach na thybiaethau sydd wedi dyddio.

## 2.0 CYD-DESTUN Y POLISI

**Y Fframwaith Polisi Cenedlaethol**

2.1 Mae cynllunio mwynau yng Nghymru yn cael ei lywio gan:

- **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12** - sy'n nodi'r fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer rheoli adnoddau mwynol yn gynaliadwy, gan gydbwyso'r cyflenwad ag ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol.
- **Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau** - sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Mwynau gynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf ar gyfer cerrig mâl a banc tir 7 mlynedd ar gyfer tywod a gro drwy gydol cyfnod y cynllun, wedi'i gyfrifo yn erbyn dosraniadau yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- **Mapiau Diogelu Mwynau Cenedlaethol (NASM)**, a gynhyrchwyd gan Arolwg Daearegol Prydain - sy'n diffinio adnoddau agregau Categori 1 (sy'n bwysig yn genedlaethol) a Chategori 2 (sy'n bwysig yn rhanbarthol). Mae'r mapiau hyn yn sail i bolisïau diogelu sy'n diogelu adnoddau mwynol rhag cael eu sterileiddio'n barhaol gan ddatblygiadau nad ydynt yn rhai mwynol.

**Trosolwg o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol**

2.2 Ar lefel leol, mae polisi cynllunio mwynau Ynys Môn yn cael ei arwain ar hyn o bryd gan Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, sy'n cynnwys pum polisi mwynau penodol:

- **MWYN 1 - Diogelu Adnoddau Mwynau** - sy'n dynodi ac yn diogelu adnoddau agregau Categori 1 a Chategori 2 rhag cael eu sterileiddio.
- **MWYN 2 - Diogelu Seilwaith Mwynau** - sy'n diogelu glanfeydd, rheilffyrdd a chyfleusterau cysylltiedig sy'n hanfodol i drin, prosesu a dosbarthu mwynau.
- **MWYN 3 - Datblygu Mwynau** - sy'n cefnogi cynigion ar gyfer gweithio mwynau mewn safleoedd a ganiateir ac ardaloedd wedi'u diogelu, yn amodol ar amodau amgylcheddol, amwynder ac adfer llym.

- **MWYN 4 - Meini Prawf ar gyfer Safleoedd Mwynau Newydd** - sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer asesu safleoedd mwynau newydd neu estyniadau, gan gynnwys yr angen a ddangosir, capasiti amgylcheddol, a diogelu'r gymuned.
- **MWYN 5 - Clustogfeydd** - sy'n diffinio clustogfeydd o amgylch safleoedd mwynau a ganiateir neu a ddyrannwyd i ddiogelu defnyddiau sensitif a hyfywedd gweithredol chwareli.

**Sefyllfa Ail Adolygiad DTRh (2020)**

2.3 Mae Ail Adolygiad DTRh yn dosrannu gofyniad blynyddol o 321,000 tunnell o gerrig mâl y flwyddyn i Ynys Môn, sy'n cyfateb i 8.025 miliwn tunnell hyd 2039. Cyfrifwyd y dosraniad hwn gan ddefnyddio methodoleg Cynllunio-Monitor-Rheoli, gan ddefnyddio data a gasglwyd drwy Arolygon Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn uniongyrchol. Mae'r Gweithgor Agregau Rhanbarthol yn darparu'r dystiolaeth sylfaenol drwy adrodd ar gyfartaleddau gwerthiant treigl 10 mlynedd a 3 blynedd a chronfeydd â chaniatâd ar gyfer pob awdurdod. Mae'r DTRh2 wedyn yn defnyddio'r uchaf o'r cyfartaleddau gwerthiant hyn, yn cymhwyso cynnydd o 30% i adlewyrchu'r galw a ragwelir am adeiladu a thai, ac yn dosbarthu'r gofyniad cenedlaethol yn rhanbarthol ac yna i awdurdodau lleol gan ddefnyddio cymysgedd o batrymau gwerthiant yn y gorffennol, gwerthiannau tai a gwblhawyd, a barn broffesiynol. Ar gyfer Ynys Môn, roedd y cyfrifiad yn seiliedig ar 8.015 Mt o gronfeydd a gofnodwyd yn 2016, a oedd yn ymddangos yn ddigon ar y pryd i fodloni'r gofyniad dosrannu. Ar y sail hon, daeth DTRh2 i'r casgliad nad oedd angen darparu unrhyw ddyraniadau newydd ar Ynys Môn.

**Tystiolaeth wedi'i Diweddaru - Data Gweithredwyr 2023 a 2025 NWaRAWP**

2.4 Mae Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023 yn cofnodi 1,212,563 tunnell o werthiant cerrig mâl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd gyda'i gilydd (wedi'i gyfuno er cyfrinachedd). Mae'r ffigur hwn bron bedair gwaith yn fwy na'r dosraniad DTRh2 ar gyfer Ynys Môn yn unig, sy'n awgrymu lefelau cynhyrchu llawer uwch na'r disgwyl.

2.5 Nid yw allbwn Ynys Môn yn unig yn cael ei gyhoeddi ar wahân, ond mae tystiolaeth gweithredwyr lleol (Chwefror 2025) yn dangos bod y tri phrif safle (Bwlch Gwyn, Cae'r Glaw, a Gwyndy) gyda'i gilydd wedi cynhyrchu mwy na dwbl y dosraniad DTRh o 321,000tpa ac mae'n adlewyrchu rôl Ynys Môn fel allforiwr net o agregau i farchnadoedd ehangach Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

2.6 Mae gweithredwyr yn amcangyfrif bod gweddill y cronfeydd â chaniatâd (heb gynnwys Hengae, sydd â chyfyngiad allbwn o 18,000 tunnell y flwyddyn) rhwng 4.3 a 5.3 miliwn tunnell. Ar y cyfraddau echdynnu presennol, mae hyn yn cyfateb i gyflenwad o ddim ond 5-7 mlynedd. Mae hyn yn sylweddol is na gofyniad

lleiafswm 10 mlynedd MTAN 1, ac yn llawer llai na thybiaethau DTRh2 am fanc tir 25 mlynedd ar gyfer cerrig mâl (10 mlynedd a 15 mlynedd ar gyfer cyfnod y cynllun).

**Goblygiadau Polisi**

2.7 Er bod polisïau mwynau'r CDLlC presennol yn cyd-fynd yn fras â chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, bydd angen i CDLl newydd Ynys Môn ystyried y canlynol:

- A oes angen dyraniadau neu estyniadau ychwanegol i gynnal banc tir sy'n cydymffurfio;
- A ddylid mireinio ffiniau diogelu i ganolbwyntio ar gronfeydd hyfyw y gellir eu cyflawni;
- A dylid cryfhau'r trefniadau monitro i sicrhau bod data cynhyrchu a data cronfeydd safle-benodol cyfredol yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau.

Yn ogystal ag agregau, rhaid i'r CDLl newydd hefyd ystyried diogelu mwynau nad ydynt yn agregau. Mae hyn yn cynnwys adnoddau metelaidd fel Mynydd Parys, sy'n dal i gael eu diogelu o dan bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, a chaniatâd byw ar gyfer mawn a marl yn Ynys Uchaf ac Ynys Ganol, Brynteg. Mae'r rhain yn gofyn am bolisïau diogelu a gwarchod priodol o ystyried eu statws presennol, er bod polisi cenedlaethol yn symud tuag at gyfyngu ar echdynnu mawn.

## 3.0 CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMR)

3.1 Mae'r gwaith monitro blynyddol ar gyfer Ynys Môn yn defnyddio ffurflenni arolwg NWaRAWP, wedi'u hategu gan ymweliadau safle gan yr awdurdod lleol a thrafodaethau uniongyrchol â gweithredwyr. Mae'r dull deuol hwn yn sicrhau bod data rhanbarthol cyhoeddedig yn cael ei groeswirio yn erbyn gwybodaeth safle-benodol.

3.2 Mae Ail Adolygiad DTRh (2020) yn nodi'r dosraniadau cerrig mâl blynyddol a ganlyn:

- Gwynedd - 0.955 miliwn tunnell y flwyddyn
- Ynys Môn - 0.321 miliwn tunnell y flwyddyn
- Cyfanswm cyfunol - 1.276 miliwn tunnell y flwyddyn

3.3 Mae Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023 yn cofnodi 1,212,563 tunnell o werthiant cerrig mâl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd gyda'i gilydd (wedi'i gyfuno er cyfrinachedd). Mae hyn ychydig yn is na'r dosraniad DTRh2 cyfun o tua 63,000 tunnell y flwyddyn, sy'n awgrymu bod y cyflenwad - ar bapur - yn cyd-fynd yn fras â'r angen a ragwelir.

3.4 Fodd bynnag, mae tystiolaeth gweithredwyr lleol o fis Chwefror 2025 yn dangos realiti gwahanol i Ynys Môn:

- Mae'r allbwn o'r tair prif chwarel (Bwlch Gwyn, Cae'r Glaw, a Gwyndy) yn fwy na dwbl dosraniad DTRh2 ar gyfer Ynys Môn yn unig (321,000 t y flwyddyn).
- Amcangyfrifir bod y cronfeydd â chaniatâd sy'n weddill yn y tri safle hyn (ac eithrio Hengae, sy'n anweithredol gyda chap o 18,000 tunnell y flwyddyn) yn 4.35.3 miliwn tunnell.
- Mae Cae'r Glaw wedi cael ei ailasesu'n ddiweddar, gydag arolygon yn nodi cronfeydd ychwanegol.
- Mae Rhuddlan Bach, a weithiwyd yn helaeth hyd at ddiwedd 2024, bron wedi'i ddisbyddu.
- Mae Nant Newydd yn cynnwys rhywfaint o gronfeydd ond mae'n segur ar hyn o bryd.

3.5 Hyd yn oed gan gynnwys Rhuddlan Bach, mae cyfanswm cronfeydd effeithiol Ynys Môn yn cyfateb i gyflenwad o ddim ond 5 -7 mlynedd ar y cyfraddau echdynnu presennol. Pe bai Nant Newydd yn cael ei hadfywio, gallai hyn ymestyn y banc tir i 9-10 mlynedd, ond mae hyn yn dal yn ymylol yn erbyn gofyniad sylfaenol MTAN 1.

3.6 Mae hyn yn amlygu anghysondeb sylweddol rhwng:

- Tybiaethau DTRh2 (8.015 miliwn tunnell o gronfeydd yn 2016, sy'n cyfateb i 25 mlynedd ar gyfartaledd ar y gyfradd ddosrannu),
- Data gwerthiant cyfunol NWaRAWP, sy'n cuddio cyfraddau echdynnu uwch Ynys Môn drwy eu huno â Gwynedd, a
- Gwybodaeth gan weithredwyr lleol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol, sy'n dangos allbwn diweddar llawer uwch a chronfeydd wrth gefn llawer is nag y mae DTRh2 yn ei awgrymu.

3.7 Agregau Eildro ac Eilaidd - Mae Datganiadau Trwyddedau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2022 yn cadarnhau bod Ynys Môn yn derbyn dros 160,000 tunnell o wastraff anadweithiol ac adeiladu/dymchwel (C&D) bob blwyddyn. O hyn, cafodd tua 27,000 tunnell eu trin a chafodd dros 100,000 tunnell eu tirlenwi. Mae rhywfaint o wastraff sy'n cael ei drin yn cael ei allforio i ranbarthau eraill, ond mae llawer o'r agregau eildro a gynhyrchir ddim yn cael eu cofnodi ar ôl iddynt basio'r prawf "diwedd gwastraff". Mae hyn yn egluro'r anghysondeb rhwng ffigurau "gwastraff i mewn" a "gwastraff allan" yn y setiau data. Mae data wedi'i ddiweddaru o 2024 yn dangos tueddiadau gweddol debyg i ddatganiadau 2022. Fodd bynnag, er cysondeb a nes bydd data 2024 wedi'i wirio a'i asesu ymhellach, set ddata 2022 fydd y llinell sylfaen ar gyfer y Papur Pwnc hwn o hyd. Bydd diweddariadau yn y dyfodol yn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf a gadarnhawyd ar ôl iddi gael ei hegluro a'i chadarnhau.

3.8 Ni ellir mesur yn fanwl gyfraniad gwirioneddol agregau eildro i'w cyflenwi. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl cyfrifo eu rôl yn gywir o ran ymestyn y banc tir neu gyrraedd lefelau dosrannu.

3.9 Felly, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dod i'r casgliad y gallai dibynnu'n llwyr ar setiau data DTRh2 a NWaRAWP danamcangyfrif natur frys problem cyflenwad mwynau Ynys Môn. Ar gyfer y CDLl newydd, bydd ymgysylltu'n uniongyrchol yn aml â gweithredwyr chwareli, ynghyd â monitro allbynnau agregau eildro yn well, yn hanfodol er mwyn cynnal darlun cywir ac amserol o'r cronfeydd.

## 4.0 NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL

4.1 Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol, mae gan nifer o newidiadau yn sector mwynau Ynys Môn oblygiadau uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r rhain yn cynnwys crynhoi cynhyrchu mewn nifer fach o safleoedd, disbyddu neu rewi eraill, pwysau galw sylweddol gan seilwaith a thai, effaith cyfyngiadau amgylcheddol, a'r angen i gysoni tybiaethau DTRh2 â thystiolaeth leol fwy diweddar.

**Crynhoi Cynhyrchu**

4.2 Mae cyflenwad Ynys Môn eisoes wedi'i grynhoi mewn tri phrif safle gweithredol - Bwlch Gwyn, Cae’r Glaw, a Gwyndy - sydd gyda'i gilydd yn cynhyrchu mwy na dwbl y dosraniad DTRh2 ar gyfer Ynys Môn (321,000 tunnell). Mae'r ddibyniaeth drom hon ar dair chwarel yn cynyddu'r risg y bydd cydnerthedd y cyflenwad yn cael ei danseilio os bydd cronfeydd yn prinhau neu os bydd cyfyngiadau gweithredol yn codi.

4.3 Mae Rhuddlan Bach wedi bod yn brysur iawn hyd at ddiwedd 2024, gyda'r cronfeydd sy'n weddill bron â chael eu disbyddu. Ar ôl ei disbyddu, bydd angen i'w hallbwn gael ei amsugno gan un neu ragor o'r tair prif chwarel arall, gan gynyddu'r pwysau ar eu cronfeydd a byrhau'r banc tir effeithiol. Mae data cynhyrchu hanesyddol yn dangos bod Rhuddlan Bach yn nodweddiadol wedi cyflenwi deunydd drwy gydol y degawd cyn iddi gael ei disbyddu. Mae'r allbwn cyfartalog hwn yn rhoi cyd-destun ar gyfer sut bydd ei chau yn cynyddu'r pwysau ar safleoedd eraill. Mae colli'r allbwn hwn hefyd yn arwain at oblygiadau tymor hwy o ran cadernid cyflenwadau, gan ei fod yn cynyddu dibyniaeth ar nifer cyfyngedig o safleoedd mwy.

4.4 Mae gan Nant Newydd gronfeydd ond mae'n segur ar hyn o bryd. Os caiff ei hadfywio, gallai wneud iawn yn rhannol am golli cynhyrchiant o safleoedd eraill, ond mae amseriad a dichonoldeb ailagor yn dal yn ansicr. Nid oes gan y safle lawer o le i ymestyn, felly mae ei gyfraniad yn debygol o fod yn fyrhoedlog yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.

4.5 Yng Nghae’r Glaw, mae arolygon wedi'u diweddaru wedi nodi capasiti cronfeydd ychwanegol o fewn y ffin a ganiateir. Er bod hyn yn gwella'r banc tir tymor byr, nid yw'n newid y darlun cyflenwi tymor canolig i hirdymor yn sylfaenol, gan fod y cronfeydd cyffredinol yn parhau i fod yn gyfyngedig ac wedi'u crynhoi.

**Pwysau Galw**

4.6 Gallai prosiectau datblygu a seilwaith ar raddfa fawr fel Porthladd Rhydd Caergybi, Wylfa Newydd, trydedd bont arfaethedig Afon Menai, a chynlluniau amddiffyn yr arfordir mawr gynyddu'r galw am agregau yn sylweddol, y tu hwnt i'r dosraniadau presennol.

4.7 Disgwylir y bydd darparu tai lleol, gwelliannau trafnidiaeth ac uwchraddio cyfleustodau hefyd yn gofyn am symiau sylweddol o agregau. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod dosraniadau DTRh2 yn seiliedig yn rhannol ar ddata cwblhau tai a chynnydd o 30% i adlewyrchu gweithgarwch adeiladu yn y dyfodol, gan ymgorffori twf tai yn uniongyrchol mewn cyfrifiadau cyflenwi. Felly, mae'n hanfodol bod taflwybrau tai'r CDLl yn cyd-fynd â chynllunio'r cyflenwad mwynau.

**Disbyddu Cronfeydd vs Tybiaethau DTRh2**

4.8 Roedd DTRh2 (2020) yn tybio 8.015 miliwn tunnell o gronfeydd cerrig mâl ar Ynys Môn (llinell sylfaen 2016) ac echdynnu yn agos at y dosraniad o 321,000 tunnell y flwyddyn, sy'n awgrymu cyflenwad 25 mlynedd.

4.9 Mae tystiolaeth bresennol gan weithredwyr (Chwefror 2025) yn awgrymu bod cronfeydd â chaniatâd effeithiol yn tua 4.3 a5.3 Mt yn y prif safleoedd gweithredol, gyda rhywfaint o gronfeydd ar ôl yn Rhuddlan Bach a Nant Newydd. Hyd yn oed wrth gynnwys y safleoedd llai hyn, mae hyn yn cyfateb i gyflenwad 5 -7 mlynedd yn unig yn ôl yr allbwn presennol. Heb ganiatadau newydd, gallai'r banc tir ddisgyn o dan ofyniad 10 mlynedd sylfaenol MTAN 1 ymhell cyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.

4.10 Mae'r anghysondeb hwn rhwng tybiaethau DTRh2, data cyfun NWaRAWP, a gwybodaeth gweithredwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd cryfhau monitro lleol i sicrhau bod cyfrifiadau banc tir yn adlewyrchu realiti.

**Cyfyngiadau Amgylcheddol a Threftadaeth**

4.11 Mae cyfran sylweddol o adnodd calchfaen o ansawdd uchel Ynys Môn wedi'i lleoli o fewn, neu wrth ymyl, Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Corsydd Môn a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) cysylltiedig, sy'n cyfyngu ar ei hargaeledd ar gyfer gweithio yn y dyfodol. Rhaid i ddiogelu felly wahaniaethu rhwng adnoddau cyfyngedig ac ymarferol.

4.12 Y tu hwnt i'w rôl fel agregau, mae calchfaen Ynys Môn yn bwysig o ran treftadaeth, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer waliau, cerrig adeiladu a gwaith cadwraeth. Felly, gallai dihysbyddu chwareli calchfaen hygyrch arwain at ganlyniadau diwylliannol yn ogystal â chyflenwi.

**Seilwaith a Dosbarthu**

4.13 Mae Ynys Môn yn elwa o gysylltiadau trafnidiaeth strategol drwy'r A55, Porthladd Caergybi, a chysylltiadau rheilffordd posibl ym Mhenrhos, gan gefnogi cyflenwad lleol ac allforion i farchnadoedd rhanbarthol a chenedlaethol. Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd seidin rheilffordd Y Fali/Wylfa yn cael ei ail-bwrpasu at ddibenion eraill fel cludo nwyddau cyffredinol a symud mwynau. Gallai hyn

ddarparu allfa reilffordd werthfawr ar gyfer agregau, gan leihau'r pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd a gwella cynaliadwyedd dosbarthu mwynau. Fodd bynnag, er bod allforion yn werthfawr yn economaidd, mae perygl iddynt ddisbyddu'r cronfeydd lleol yn gyflymach os nad ydynt yn cael eu cydbwyso â'r angen i gynnal banc tir dibynadwy ar gyfer gofynion yr ynys ei hun.

**Goblygiadau Polisi a Monitro**

4.14 Mae polisïau'r CDLlC presennol yn diogelu adnoddau a seilwaith allweddol, ond efallai y bydd angen i'r CDLl newydd ymgorffori mecanweithiau dyrannu sy'n seiliedig ar sbardunau, gan alluogi cyflwyno estyniadau neu safleoedd newydd pan fydd cronfeydd yn disgyn o dan drothwy diffiniedig.

4.15 Bydd cryfhau monitro amser real gyda gweithredwyr - drwy ddatganiadau data blynyddol, arolygon drôn a chyfarfodydd cyswllt - yn hanfodol er mwyn olrhain disbyddiad cronfeydd yn gywir a rhagweld statws gweithredol safleoedd segur fel Nant Newydd.

## 5.0 DIOGELU

5.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol yn cynnwys dau bolisi diogelu allweddol:

- Mae Polisi MWYN 1 - Diogelu Adnoddau Mwynau - yn nodi ac yn diogelu adnoddau agregau Categori 1 a Chategori 2 rhag cael eu sterileiddio'n barhaol gan ddatblygiadau nad ydynt yn rhai mwynol.
- Mae Polisi MWYN 2 - Diogelu Seilwaith Mwynau - yn diogelu glanfeydd, pen rheilffyrdd a chyfleusterau eraill sy'n bwysig ar gyfer storio, trin a phrosesu mwynau.

5.2 Mae'r polisïau hyn yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12, MTAN 1, a'r Map Diogelu Agregau Cenedlaethol (NASM) a baratowyd gan Arolwg Daearegol Prydain (BGS).

**Categorïau Adnoddau**

5.3 Mae'r NASM yn nodi'r canlynol: Mae'r dull hwn yn dilyn y fethodoleg ar gyfer gwaith CDLl Awdurdodau Lleol eraill a gwaith technegol cysylltiedig, sy'n dal yn berthnasol i Ynys Môn.

- Categori 1 - adnoddau o bwys cenedlaethol, gan gynnwys calchfeini pur iawn a cherrig igneaidd ag agregau manyleb uchel (HSA).
- Categori 2 - adnoddau sy'n bwysig yn rhanbarthol fel dyddodion cerrig caled eraill a chalchfeini manyleb is.

*Carreg galed*

5.4 Ar Ynys Môn, mae'r ardaloedd a ddiogelir yn cynnwys dyddodion helaeth o galchfaen, tywodfaen a charreg igneaidd yn rhannau canol a gogledd-orllewinol yr ynys. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o galchfaen o ansawdd uchel o fewn, neu wrth ymyl, dynodiadau cadwraeth natur sensitif, yn enwedig ACA Corsydd

Môn a'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig cysylltiedig. Mae'r cyfyngiadau hyn yn lleihau cyfaint y calchfaen a ddiogelir y gellir ei gweithio yn realistig. Ar yr un pryd, mae calchfaen yn bwysig o ran treftadaeth fel carreg adeiladu a chodi waliau draddodiadol, sy'n golygu bod goblygiadau diwylliannol a goblygiadau cyflenwi i'w diogelu.

*Glo*

5.5 Roedd y CDLlC hefyd yn nodi Maes Glo Malltraeth. Er ei fod yn cael ei ddiogelu'n genedlaethol, nid yw'n cael ei ystyried yn ymarferol ar gyfer gweithio yn y dyfodol ac mae wedi'i eithrio o sylfaen adnoddau Ynys Môn.

*Metelau*

5.6 Mae Mynydd Parys yn cael ei ddiogelu fel adnodd metelaidd o dan Bolisi MWYN 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gydnabod ei botensial ar gyfer ail-weithio a'i dreftadaeth ddiwydiannol sylweddol.

*Mawn a marl*

5.7 Dylid hefyd cydnabod caniatadau byw i gaffael a gweithio mawn a marl yn Ynys Uchaf ac Ynys Ganol, Brynteg, o ran diogelu, er bod polisi cenedlaethol yn symud tuag at gyfyngu ar echdynnu mawn. Mae'r hawliau hyn yn dal yn ddilys tan 22 Chwefror 2042 ac felly mae angen eu diogelu nes bydd statws polisi neu gydsyniad yn newid.

*Tywod a Gro*

5.8 Mae dyddodion tywod a gro Categori 1 a 2 hefyd wedi cael eu mapio ond yn gyffredinol maent yn fach, wedi'u hynysu, ac yn aml wedi'u cyfyngu gan ddynodiadau amgylcheddol fel gorlifdiroedd neu barthau gwarchod arfordirol. Daeth Ail Adolygiad DTRh (2020) i'r casgliad nad oes unrhyw ddyddodion masnachol hyfyw, heb gyfyngiadau, sy'n gallu cefnogi echdynnu ar raddfa fawr ar Ynys Môn. Daeth gwaith technegol cynharach, gan gynnwys astudiaethau a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, i gasgliadau tebyg. Diogelir y dyddodion hyn i gadw hyblygrwydd hirdymor, ond mae eu cyfraniad yn y dyfodol yn debygol o fod yn gyfyngedig. Cynhaliwyd astudiaethau manwl gan Capita Symonds a Phrifysgol Lerpwl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i asesu tywod a gro. Mae'r dyddodion hyn a gadarnhawyd yn gyfyngedig iawn, sy'n atgyfnerthu casgliad DTRh2.

**Cysylltiad â'r Sefyllfa Cyflenwad**

5.9 O dan y CDLlC presennol, gwarchodaeth hirdymor yw diogelu yn bennaf. Fodd bynnag, mae tystiolaeth wedi'i diweddaru yn dangos y gallai fod angen ystyried rhyddhau adnoddau wedi'u diogelu yn llawer cynt na'r hyn a ragwelwyd yn DTRh2, yn enwedig os:

- Bydd Rhuddlan Bach wedi'i disbyddu yn y tymor byr.
- Mae Nant Newydd yn parhau i fod yn anweithredol ac nid yw'n cyfrannu at y banc tir.

- Mae allbwn Bwlch Gwyn, Cae’r Glaw, a Gwyndy yn cynyddu ymhellach i amsugno’r diffyg, gan gyflymu'r broses o ddisbyddu cronfeydd.

Bu ansicrwydd hefyd ynghylch perchnogaeth a gweithrediad y safle, gan gymhlethu ymhellach y tebygolrwydd o adfywio yn Nant Newydd. Mae mynediad ffordd i Hengae hefyd yn peri heriau, ac er bod llwybr cludo uniongyrchol wedi'i awgrymu, nid oes cynllun ar waith ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at yr angen i gysylltu diogelu'n fwy penodol â pholisïau dyrannu sy'n seiliedig ar sbardunau yn y CDLl.

**Diogelu Seilwaith**

5.10 Yn ogystal ag adnoddau daearegol, mae'r seilwaith mwynol allweddol sydd i'w ddiogelu yn cynnwys:

- Porthladd Caergybi - cyfleuster mewnforio/allforio morol strategol.
- Pen rheilffordd Ystâd Ddiwydiannol Penrhos - gyda'r posibilrwydd o drin mwynau yn y dyfodol.
- Seidin rheilffordd y Fali-Wylfa - gyda'r posibilrwydd o'i hailddefnyddio ar gyfer cludo nwyddau cyffredinol a mwynau, gan gefnogi dosbarthu cynaliadwy.
- Gwaith prosesu, araenu a chreu sypiau ar y safle mewn chwareli gweithredol.

**Cyfeiriad Polisi i'r Dyfodol ar gyfer y CDLl newydd**

5.11 Bydd diogelu yn parhau i fod yn ddull polisi craidd yn y CDLl, ond o ystyried y cyfyngiadau ar gronfeydd sy'n dod i'r amlwg, dylid ei gysylltu'n benodol â phenderfyniadau dyrannu posibl yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu cyflwyno ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gweithio lle mae'r gwaith monitro'n dangos bod y banc tir yn bodloni gofynion MTAN 1, gan sicrhau parhad y cyflenwad ar gyfer anghenion lleol ac allforion rhanbarthol.

## 6.0 CYFLENWAD MWYNAU

**Sefyllfa 2il Adolygiad DTRh**

6.1 Mae Ail Adolygiad DTRh (2020) yn nodi'r dosraniadau cerrig mâl blynyddol a ganlyn:

- Gwynedd - 0.955 miliwn tunnell y flwyddyn
- Ynys Môn - 0.321 miliwn tunnell y flwyddyn
- Cyfanswm cyfunol - 1.276 miliwn tunnell y flwyddyn

6.2 Roedd DTRh2 (2020) wedi defnyddio cronfeydd o 8.015 Mt ar gyfer Ynys Môn yn 2016 ac wedi dod i'r casgliad nad oedd angen unrhyw ddyraniadau newydd, gan dybio y byddai'r echdynnu'n aros yn agos at y gyfradd ddosrannu. Fodd bynnag, mae'r dybiaeth hon wedi bod yn afrealistig, gan fod echdynnu wedi rhagori ar y dosraniad yn gyson.

**Monitro NWaRAWP 2023**

6.3 Mae Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023 yn cofnodi 1,212,563 tunnell o werthiant cerrig mâl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd gyda'i gilydd (wedi'i gyfuno er cyfrinachedd). Ar bapur, mae hyn ychydig yn is na'r dosraniad DTRh2 cyfun, ond mae'n cuddio amrywiad sylweddol rhwng y ddwy sir.

6.4 Mewn gwirionedd, mae'r cynhyrchu ar Ynys Môn yn uwch o lawer na'r lefel a ragdybir yn y dosraniad. Mae tystiolaeth gweithredwyr (Chwefror 2025) yn dangos bod prif chwareli gweithredol yr ynys yn parhau i gynhyrchu ar gyfradd sylweddol, er bod capasiti cronfeydd unigol yn amrywio. Mae gwaith arolygu diweddar wedi darparu amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer nifer o safleoedd gweithredol, gan gadarnhau bod y sefyllfa gyffredinol o ran cronfeydd yn gyfyngedig o ran hyd. O ystyried anghysondebau rhwng tybiaethau'r DTRh, data NWaRAWP, a thystiolaeth gweithredwyr, rhaid i waith monitro yn y dyfodol gynnwys dulliau dilysu annibynnol. Dylid cynnal arolygon drôn o chwareli gweithredol bob blwyddyn i gyfrifo pentyrrau stoc a'r cynnydd o ran echdynnu, gan ddarparu sail gadarn ar gyfer cyfrifiadau banc tir.

6.5 O ystyried yr anghysondebau rhwng tybiaethau'r DTRh, data NWaRAWP, a thystiolaeth gweithredwyr, rhaid i waith monitro yn y dyfodol gynnwys dulliau dilysu annibynnol. Dylid cynnal arolygon drôn o chwareli gweithredol bob blwyddyn i gyfrifo pentyrrau stoc a'r cynnydd o ran echdynnu, gan ddarparu sail gadarn ar gyfer cyfrifiadau banc tir.

**Cyfrifiad Banc Tir Effeithiol**

6.6 Cyfanswm cronfeydd effeithiol: 5.9 - 6.9 Mt, sy'n cyfateb i gyflenwad 8 -9 mlynedd yn unig yn ôl yr allbwn presennol (~750,000 tunnell y flwyddyn). Os bydd Nant Newydd yn ailgychwyn yn brydlon, gallai'r banc tir gynyddu rhywfaint, ond mae hyn yn dal yn ymylol yn erbyn gofynion MTAN 1. Dylid nodi hefyd, pe bai'r gronfa a amcangyfrifir yn Dinmor yn cael ei hychwanegu at y cyfrifiad hwn, y gallai'r banc tir ymddangosiadol gynyddu llai na blwyddyn (tua 0.6-0.7 blynedd ar y cyfraddau allbwn presennol). Gallai hyn greu nenfwd ffug, gan fod Dinmor yn gyfyngedig iawn ac yn anaddas ar gyfer cynhyrchu agregau swmp. Felly dylid defnyddio cafeat gofalus ar gyfer ei gronfeydd fel cyflenwad posibl o gerrig treftadaeth/dimensiwn yn hytrach na dibynnu arnynt i fodloni gofynion dosrannu cerrig mâl.

**Cyfyngiadau ar Ddyraniadau a Chynhyrchu yn y Dyfodol**

6.7 Mae rhannau helaeth o adnodd calchfaen o ansawdd uchel Ynys Môn o fewn neu wrth ymyl ACA Corsydd Môn a'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig cysylltiedig, gan leihau'r gyfran o galchfaen wedi'i gwarchod y gellir ei gweithio.

6.8 Mae rhai chwareli calchfaen hefyd yn cyflenwi cerrig o ansawdd treftadaeth ar gyfer waliau, manylion pensaernïol a chadwraeth. Gallai colli'r rhain effeithio nid yn

unig ar y cyflenwad agregau ond hefyd ar gadw cymeriad adeiledig Ynys Môn. Yn hanesyddol, roedd safleoedd fel Rhuddlan Bach a Nant Newydd yn cyflenwi cerrig adeiladu a chodi waliau ar ôl i ffynonellau eraill gael eu disbyddu (e.e. Bryn Engan yn ystod gwaith adeiladu'r A55). Rhaid i'r rôl ddeuol hon gael ei hadlewyrchu mewn polisi. Er enghraifft, yn hanesyddol mae Aberstrecht wedi cynhyrchu calchfaen pensaernïol o ansawdd uchel, sy'n dangos pwysigrwydd diogelu ffynonellau treftadaeth.

**Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Cyflenwad Mwynau**

6.9 Dylai polisi cyflenwi mwynau newydd y CDLl:

- **Datgan yr amcan cyflenwi** - Cynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf ar gyfer cerrig mâl yn unol â MTAN 1, ar sail cyfrifiadau DTRh/RAWP a chronfeydd effeithiol sy'n benodol i Ynys Môn.
- **Integreiddio gwybodaeth safle-benodol** - Angen datganiadau gweithredwyr blynyddol ac arolygon drôn i gynnal amcangyfrifon cyfredol o'r cronfeydd, gan gydnabod diwygiadau fel y cynnydd yng Nghae'r Glaw.
- **Rhoi cyfrif am gronfeydd cyfyngedig** - Eithrio neu ddefnyddio cafeat ar gyfer cronfeydd na ellir eu gweithio o fewn cyfnod y cynllun oherwydd dynodiadau amgylcheddol neu gyfyngiadau gweithredol (e.e. cap Hengae).
- **Cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd o ddiffyg** - Cyflwyno mecanweithiau sy'n seiliedig ar sbardunau i gyflwyno estyniadau neu ardaloedd wedi'u diogelu i'w dyrannu pan fydd y banc tir effeithiol yn nesáu at 10 mlynedd neu pan ragwelir y bydd yn disgyn yn is na hynny o fewn dwy flynedd.
- **Cydbwyso anghenion treftadaeth** - Lle mae chwareli'n cyflenwi agregau a chalchfaen graddfa dreftadaeth, sicrhau parhad cyflenwad ar gyfer y ddau ddefnydd, o bosibl drwy estyniadau wedi'u targedu neu gadw gweithfeydd ar raddfa fach.
- **Blaenoriaethu estyniadau yn hytrach na safleoedd newydd** - Dyrannu estyniadau i chwareli gweithredol presennol lle bo hynny'n bosibl, gan wneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith presennol a lleihau'r effeithiau ar yr amgylchedd.
- **Cydlynu cydweithio is-ranbarthol a hyblygrwydd trawsffiniol** - Gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflenwi mwynau ar y cyd drwy gydbwyso diffygion a gwargedau ar draws ffiniau gweinyddol. Cefnogi trefniadau mewnforio/allforio o dan egwyddorion y DTRh lle mae hyn yn helpu i gynnal banc tir digonol ar yr un pryd â sicrhau bod Ynys Môn yn cadw digon o gyflenwad ar gyfer ei hanghenion ei hun.
- **Cydnabod adfywio posibl** - Trin safleoedd segur fel Nant Newydd a Hengae fel rhan o gynlluniau wrth gefn, ond dim ond os oes gobaith credadwy o adfywio yn ystod cyfnod y cynllun y byddant yn cyfrif tuag at y banc tir.
- **Ystyried yr ardaloedd a ffefrir neu'r ardaloedd chwilio**

**Ceisiadau Cynllunio Cyfredol a Rhai sy'n Dod i'r Amlwg**

6.10 Yn ogystal â'r asesiadau o gronfeydd a nodir uchod, mae'n bwysig nodi bod yna gais cynllunio byw ar gyfer estyniad yn Chwarel Cae'r Glaw. Mae'r cais hwn (cyf: MIG/2024/1), a gyflwynwyd yn 2024, yn ceisio ymestyn y chwarel i ryddhau tua 3.4 miliwn tunnell o gerrig mâl ychwanegol. Petai hyn yn cael ei ganiatáu, byddai'n gwella sefyllfa banc tir yr ynys yn sylweddol ac yn cyfrannu at gynnal cyflenwad 10 mlynedd yn unol â gofynion MTAN 1.

6.11 Bu ymholiadau cam cynnar gan weithredwyr hefyd ynghylch estyniadau posibl mewn safleoedd presennol eraill. Er nad oes ceisiadau ffurfiol wedi cael eu cyflwyno eto, mae'r ymholiadau hyn yn dangos bod gweithredwyr wrthi'n ystyried sut mae cynnal capasiti cynhyrchu mewn ymateb i bwysau cyflenwi sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, mae'r estyniadau posibl hyn yn cynrychioli'r ffynonellau mwyaf tebygol o barhad cyflenwad i Ynys Môn yn y dyfodol yn ystod cyfnod y CDLl newydd.

**Cerrig Dimensiwn a Cherrig Treftadaeth (Chwareli Aberstrecht a Dinmor)**

6.12 Nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn y tabl banc tir gan fod eu hallbynnau yn arbenigol ac yn gysylltiedig â cherrig treftadaeth/dimensiwn yn hytrach na chyflenwi agregau mewn swmp.

Chwarel galchfaen weithredol ar raddfa fach yw ***Chwarel Aberstrecht (Moelfre)*** sy'n cyflenwi cerrig dimensiwn/pensaernïol. Mae allbwn yn cael ei gapio ar 4,000 tunnell y flwyddyn o dan amod, heb unrhyw ffrwydro, gweithio uwchben y lefel trwythiad, a gwaith adfer cynyddol. Mae ei chronfeydd yn gwasanaethu marchnad dreftadaeth/cadwraeth arbenigol yn hytrach na'r farchnad agregau swmp. Cwestiwn allweddol i'r CDLl newydd yw a ddylid gosod cafeat ar gyfer y cronfeydd hyn at ddibenion cerrig dimensiwn yn unig neu eu heithrio o'r ffigurau ar gyfer banciau tir a dosrannu cerrig mâl yn gyfan gwbl.

Ar hyn o bryd mae ***Chwarel Dinmor (Penmon)*** yn anweithredol/yn segur dan amodau IDO. Os caiff ei rhoi ar waith eto, mae ganddi gap a ganiateir o 30,000 tunnell y flwyddyn a dyddiad gorffen gweithio o 2042 (ac adfer erbyn 2044). Amcangyfrifwyd bod y cronfeydd yn oddeutu 0.5 miliwn tunnell, ond cyfyngir ar y safle gan fynediad ac nid yw'n addas ar gyfer cyflenwad agregau cyfaint uchel. Fodd bynnag, gallai Dinmor gyfrannu at gyflenwad cerrig codi waliau a chadwraeth, yn enwedig wrth i Rhuddlan Bach a Nant Newydd gau. Unwaith eto, y cwestiwn polisi ar gyfer y CDLl newydd yw a ddylid cydnabod ei chronfeydd fel adnodd treftadaeth wedi'i ddiogelu, ond eu heithrio o'r banc tir agregau.

6.16 Goblygiadau Polisi: Mae Aberstrecht a Dinmor yn strategol bwysig i'r cyflenwad treftadaeth a chadwraeth ar Ynys Môn ond nid ydynt yn debygol o gyfrannu'n sylweddol at y banc tir agregau. Rhaid i'r CDLl newydd benderfynu a ddylid:

- Diogelu'r chwareli hyn ar gyfer eu rôl o ran cerrig treftadaeth;
- Gosod cafeat ar eu cronfeydd fel cerrig dimensiwn yn unig yn y sylfaen dystiolaeth; neu

- Eu heithrio'n llwyr o gyfrifiadau banc tir/dosrannu.

Mae eu heithrio'n sicrhau bod ffigurau cronfeydd agregau yn realistig ac nad ydynt yn cael eu chwyddo'n artiffisial gan adnoddau sy'n annhebygol o gael eu gweithio at ddibenion agregau swmp.

**Mwynau Metelaidd a Mwynau Eraill nad ydynt yn Agregau**

6.17 ***Mwynau Metelaidd - Mynydd Parys.*** Mae gan Fynydd Parys hanes hir o gloddio mwynau, ac roedd yn un o'r safleoedd mwyngloddio copr mwyaf arwyddocaol yn Ewrop yn ystod y 18fed ganrif. Mae'r safle'n dal i fod o bwysigrwydd mawr o ran treftadaeth ddiwydiannol. Mae caniatâd cynllunio dilys yn bodoli i weithio mwyn metelaidd ym Mynydd Parys tan 2028. Mae trafodaethau parhaus wedi cael eu cynnal rhwng y gweithredwr, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a'r Gwasanaeth Mwynau ynghylch y posibilrwydd o ail-weithio'r safle o dan gais wedi'i addasu. Y Cyd-destun Polisi: Yn y CDLlC presennol, mae Polisi MWYN 1 (Diogelu Adnoddau Mwynau) yn nodi bod Mynydd Parys yn adnodd metelaidd sydd wedi'i ddiogelu, gan ei ddiogelu rhag cael ei sterileiddio gan ddatblygiadau nad ydynt yn rhai mwynol. Yn ogystal, mae Polisi MWYN 3 (Datblygu Mwynau) yn cefnogi cynigion ar gyfer gweithfeydd mwynau o fewn safleoedd a ganiateir ac ardaloedd a ddiogelir, yn ddarostyngedig i ystyriaethau amgylcheddol ac amwynder. Felly, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn parhau â'r dull diogelu hwn, gan gydnabod pwysigrwydd hanesyddol Mynydd Parys a'i botensial ar gyfer ail-weithio o dan geisiadau wedi'u haddasu yn y dyfodol.

6.18 ***Mawn a Marl - Brynteg (Ynys Uchaf ac Ynys Ganol).*** Mae dau ganiatâd byw i gaffael a gweithio mawn a marl yn Ynys Uchaf ac Ynys Ganol, Brynteg. Defnyddir y deunyddiau hyn yn bennaf at ddibenion amaethyddol a garddwriaethol yn hytrach nag ar gyfer agregau. Fodd bynnag, mae polisi cenedlaethol yn symud tuag at gyfyngiadau a gwaharddiadau posibl ar echdynnu a gwerthu mawn, gan adlewyrchu newid yn yr hinsawdd, diogelu cynefinoedd, a blaenoriaethau bioamrywiaeth. Felly, dylai sylfaen dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gydnabod bodolaeth y caniatadau hyn, gan egluro hefyd y gallai cyfyngiadau polisi yn y dyfodol gyfyngu ar eu cyfraniad yn ystod cyfnod y cynllun / neu newidiadau i statws caniatadau.

## 7.0 CLUSTOGFEYDD

**Fframwaith Polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol**

7.1 Mae llinell sylfaen bresennol y CDLlC i'w chael ym Mholisi MWYN 5 (Clustogfeydd) ac mae'n nodi pellteroedd gwahanu o amgylch safleoedd mwynau er mwyn:

- Diogelu amwynder preswyl rhag effeithiau niweidiol fel sŵn, llwch a dirgryndod.
- Gwarchod diogelwch y cyhoedd drwy reoli datblygiadau ger ardaloedd cloddio gweithredol.

- Cadw hyfywedd gweithredol safleoedd mwynau a ganiateir ac a ddyrannwyd drwy osgoi datblygiad anghydnaws.

7.2 I ategu hyn, mae Polisi MWYN 2 (Diogelu Seilwaith Mwynau) yn sicrhau bod cyfleusterau strategol bwysig fel Porthladd Caergybi, pen rheilffordd Penrhos, Pen Rheilffordd y Fali a gweithfeydd ar y safle mewn chwareli yn cael eu diogelu rhag cael eu sterileiddio gan ddatblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau. Mae seilwaith diogelu ochr yn ochr â chlustogfeydd yn hanfodol er mwyn cynnal hyblygrwydd gweithredol, yn enwedig os oes angen mewnforion yn y dyfodol neu os bydd safleoedd segur yn cael eu hailgychwyn.

**Canllawiau Polisi Cenedlaethol**

7.3 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mabwysiadu dull MTAN 1 o ddefnyddio clustogfeydd dangosol o amgylch safleoedd mwynau a dyraniadau posibl, gyda phellteroedd yn cael eu hadolygu fesul achos. Mae paragraffau 40 a 43 MTAN 1 yn rhoi cyngor fel a ganlyn:

- Pellter diofyn o 200 metr o ffin y safle ar gyfer chwareli cerrig caled.
- Mae hynny'n gwarchod amwynder defnyddiau tir sensitif ac yn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng gweithrediadau mwynau a chymunedau cyfagos.
- Gall y pellteroedd hynny amrywio lle mae topograffeg, sgrinio neu fesurau lliniaru yn newid y potensial ar gyfer effaith.

7.4 Ymhellach, mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (Adran 5.14) yn nodi'r canlynol:

- Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu swyddogaeth ac amwynder safleoedd mwynau drwy atal datblygiadau cyfagos a allai niweidio eu gweithrediad.
- Mae'n annog diffiniad clir o glustogfeydd ar y map cynigion, fel bod pob parti'n ymwybodol o gyfyngiadau datblygu posibl.
- Mae’n cefnogi pellteroedd hyblyg sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth i gydbwyso gweithio mwynau â llesiant cymunedau a'r amgylchedd.

Ar gyfer mwynau nad ydynt yn agregau, dylid defnyddio clustogfeydd hefyd. Mae angen gwarchod Mynydd Parys nid yn unig er amwynder ond hefyd er mwyn gwarchod ei dreftadaeth a'i leoliad amgylcheddol. Dylid trin safleoedd mawn a marl yn Ynys Uchaf ac Ynys Ganol mewn ffordd debyg i dywod a graean, gyda chlustogfa 100m ddiofyn y gellir ei haddasu ar gyfer hydroleg, ecoleg a mesurau lliniaru sy'n benodol i'r safle.

**Cysylltiad â’r Sefyllfa Cyflenwad Bresennol**

7.5 Disgwylir i'r tri phrif gynhyrchydd (Bwlch Gwyn, Cae’r Glaw, a Gwyndy) weithredu ymhell i mewn i gyfnod y CDLl newydd. Bydd estyniadau i gynnal banc tir 10 mlynedd angen gwarchodaeth clustogfa nawr i atal sterileiddio drwy ddatblygiad anghydnaws.

7.6 Mae Rhuddlan Bach yn agosáu at gael ei disbyddu, a bydd ei chynhyrchiant yn symud i'r prif safleoedd eraill, gan gynyddu eu hallbwn a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig.

7.7 Gallai Nant Newydd gael ei hadfywio. Rhaid cadw ei chlustogfa a ddiogelir er mwyn osgoi sterileiddio'r gronfa hon a sicrhau bod yr opsiwn o adfywio yn parhau i fod ar gael.

7.8 Mae Rhuddlan Bach a Nant Newydd yn agos at ACA Corsydd Môn a SoDdGAau. Rhaid i'r clustogfeydd yma ddiogelu uniondeb ecolegol a hydroleg y safle yn ogystal ag amwynder dynol.

7.9 Rhaid ystyried adfywio posibl safleoedd fel Bryn Engan hefyd. Dylid cadw clustogfeydd ar gyfer safleoedd segur neu safleoedd sydd wedi'i disbyddu hyd nes y bydd caniatadau yn cael eu hildio, gan sicrhau nad yw opsiynau cyflenwi ar raddfa fach neu dreftadaeth yn y dyfodol yn cael eu sterileiddio'n anfwriadol.

**Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Clustogfeydd**

7.10 Dylai polisi clustogfeydd y CDLl newydd nodi'r canlynol:

- **Cadw pellteroedd diofyn** - Defnyddio clustogfa ddangosol 200 m MTAN 1 ar gyfer chwareli cerrig caled, gyda lle i addasu ar sail tystiolaeth sy'n benodol i'r safle (e.e. topograffeg, byndiau, rheolaethau amgylcheddol).
- **Mapio clustogfeydd yn gynhwysfawr** - Cymhwyso hynny i:
    - Chwareli a ganiateir ar hyn o bryd.
    - Ardaloedd ymestyn tebygol a nodwyd drwy fonitro ac asesu'r cyflenwad.
    - Safleoedd anweithredol neu segur hyfyw, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u disbyddu lle gellid ystyried adfywio.
- **Integreiddio gwarchodaeth ecolegol** - Sicrhau bod clustogfeydd o amgylch ACA/SoDdGA neu safleoedd dynodedig eraill yn gwarchod bioamrywiaeth, cynefinoedd a hydroleg.
- **Ymgorffori clustogfeydd yn y strategaeth gyflenwi** - Dylai clustogfeydd gefnogi parhad gweithredol ac osgoi sterileiddio'n ddiangen gronfeydd y gellir eu gweithio, yn enwedig lle mae estyniadau'n debygol.
- **Caniatáu hyblygrwydd ar gyfer estyniadau** - Addasu llinellau clustogi lle mae tystiolaeth yn dangos y gall mesurau lliniaru ddiogelu amwynder ac ansawdd yr amgylchedd.
- **Egluro pwrpas deuol** - Egluro bod clustogfeydd yn diogelu amwynder cymunedol a hyfywedd gweithrediadau mwynau. Dylid asesu cynigion o fewn clustogfeydd yn ofalus i weld a ydynt yn gydnaws â gweithio mwynau.

7.11 I grynhoi, mae clustogfeydd yn arf hanfodol i ddiogelu amwynder a hyfywedd gweithredol chwareli. Mae MTAN 1 yn argymell 200m diofyn ar gyfer cerrig caled, y gellir ei addasu ar gyfer ffactorau safle-benodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 yn atgyfnerthu eu rôl ddeuol o ran diogelu swyddogaeth y safle

a llesiant cymunedol. Ar gyfer Ynys Môn, dylai clustogfeydd gynnwys safleoedd presennol, estyniadau tebygol, a safleoedd segur hyfyw, ar yr un pryd â diogelu ACA/SoDdGA rhag effeithiau ecolegol. Rhaid parhau i fod yn hyblyg er mwyn addasu ffiniau clustogi lle mae tystiolaeth gadarn a mesurau lliniaru yn dangos bod modd diogelu ansawdd yr amwynderau a'r amgylchedd.

## 8.0 MONITRO

**Llinell Sylfaen y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Presennol**

8.1 Mae monitro'n digwydd ar hyn o bryd drwy'r **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR)**, gan ddefnyddio ffurflenni arolwg RAWP/NWaRAWP a gwybodaeth yr awdurdod lleol am safleoedd. Nid oes polisi monitro ar wahân yn bodoli, ond mae monitro'n ofyniad statudol ar draws y cynllun yn ei gyfanrwydd.

**Materion a Ddatgelwyd gan Dystiolaeth Ddiweddar**

8.2 Mae setiau data DTRh2 a NWaRAWP yn ddibynadwy ar gyfer meincnodi rhanbarthol ond maent ar ei hôl hi o gymharu â'r realiti gweithredol. Er enghraifft, yn 2023 cafodd gwerthiannau Ynys Môn eu huno â rhai Gwynedd, gan guddio ffigurau sy'n benodol i Ynys Môn a chuddio'r gyfradd gynhyrchu llawer uwch ar yr ynys.

8.3 Mae gwybodaeth gan weithredwyr a gasglwyd ym mis Chwefror 2025 yn newid y darlun yn sylweddol: Mae Cae'r Glaw wedi ennill cronfeydd ychwanegol, mae Rhuddlan Bach bron â chael ei disbyddu, ac er iddi gael ei rhewi, mae Nant Newydd yn cadw rhywfaint o gronfeydd y gellid eu hadfywio.

8.4 Heb fonitro uniongyrchol safle-benodol, mae'r Cyngor mewn perygl o danamcangyfrif cyfraddau disbyddiad cronfeydd a methu arwyddion cynnar o ddiffyg mewn cyflenwad. Gallai arolygon drôn, er enghraifft, gadarnhau'n annibynnol faint o gronfeydd sydd ar ôl ym Mwlch Gwyn, Cae'r Glaw, a Gwyndy.

**Dull Monitro Cryfach ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

8.5 Dylid cyflwyno **datganiadau gweithredwyr cyfrinachol blynyddol** i'r Cyngor, gan adrodd ar y canlynol:

- Cronfeydd fesul safle (profedig a thebygol).
- Echdynnu a gwerthiant yn ôl cynnyrch.
- Statws gweithredol (gweithredol, wedi'i rewi, anweithredol).
- Proffil allbwn tair blynedd disgwyliedig.

Cydnabyddir nad yw allbwn y chwarel yn llinol a bod cynhyrchu un math o agregau (e.e. carreg lân 10 mm) yn gallu cynhyrchu sgil-gynhyrchion (e.e. llwch

neu sgalpin) nad ydynt efallai'n gwerthu ar yr un gyfradd. Felly, wrth fonitro, rhaid ystyried y cymhlethdodau hyn.

8.6 Dylid cynnal **arolygon drôn blynyddol** o bob chwarel weithredol i wirio ffiniau echdynnu a ganiateir, mesur cyfaint pentyrrau stoc, a monitro cynnydd wyneb yn erbyn cynlluniau a ganiateir. Byddai hyn yn rhoi amcangyfrifon annibynnol o ddisbyddiad cronfeydd a chydbwysedd stoc.

8.7 Dylid rhoi **sbardunau** ar waith pan fydd y banc tir yn llai nag 11 mlynedd, neu pan fydd safle allweddol yn newid statws (e.e. cau Rhuddlan Bach, adfywio Nant Newydd).

8.8 Dylai **adrodd deuol** yn yr AMR sicrhau'r canlynol:

- Mae dangosyddion DTRh2/NWaRAWP wedi'u cynnwys er mwyn gallu cymharu'n rhanbarthol.
- Cyfrifir "banc tir effeithiol" Ynys Môn yn unig, heb gynnwys cronfeydd na ellir eu gweithio'n realistig o fewn cyfnod y cynllun.
- Cydnabyddir cyfraniad posibl **agregau eildro**, tra'n cydnabod nad yw eu gwir allbwn yn cael ei gofnodi ar ôl i ddeunyddiau basio'r prawf "diwedd gwastraff".

**Trothwyon Sbardun Cysylltiedig ag Ymateb Polisi**

8.9 Dylai'r camau canlynol fod yn berthnasol pan gyrhaeddir y lefelau trothwy:

- **Banc tir < 10 mlynedd (cerrig mâl)**: dechrau chwilio am safleoedd a dichonoldeb estyniadau, a pharatoi galwad benodol am safleoedd (ardaloedd wedi'u diogelu yn gyntaf).
- **Rhagamcan o < 9 mlynedd o fewn 24 mis**: dechrau gwaith paratoi ar ddyraniad/dyraniadau neu estyniadau yn y CDLl (neu'r CCA) newydd er mwyn gallu penderfynu ar geisiadau mewn pryd.
- **Colli capasiti** (e.e. cau Rhuddlan Bach heb ddigolledu drwy adfywio yn Nant Newydd): esgoli i ddeialog trawsffiniol gyda Gwynedd ac awdurdodau eraill o dan egwyddorion cydweithio'r DTRh.

**Gofynion Polisi y CDLl Newydd - Monitro**

8.10 Dylai polisi monitro newydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd wneud y canlynol:

- **Pennu'r pwrpas** - Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion banc tir MTAN 1 a galluogi ymyrraeth gynnar lle mae cronfeydd yn nesáu at drothwyon hanfodol.
- **Nodi ffynonellau data** - Mandadu bod y canlynol yn cael eu defnyddio:
    - Data NWaRAWP a DTRh2 ar gyfer meincnodi rhanbarthol.
    - Datganiadau gweithredwyr blynyddol cyfrinachol ar gyfer cronfeydd, gwerthiannau a statws gweithredol sy'n benodol i Ynys Môn.

    - Arolygon drôn blynyddol i ddarparu amcangyfrifon annibynnol o ddisbyddiad cronfeydd a chyfaint pentyrrau stoc.

- **Diffinio adrodd** - Ymrwymo i gyhoeddi dangosyddion DTRh2/NWaRAWP a banc tir effeithiol ar gyfer Ynys Môn yn unig yn yr AMR.
- **Pennu sbardunau gweithredu** - Sefydlu trothwyon clir ar gyfer ymyrryd, gan gynnwys banc tir effeithiol < 10 mlynedd, rhagamcan o <9 mlynedd o fewn 24 mis, neu golli capasiti sylweddol.
- **Cydnabod cerrig treftadaeth/dimensiwn** - Sefydlu llinyn monitro cyfochrog ar gyfer safleoedd ar raddfa fach (e.e. Aberstrecht, Dinmor), gan gofnodi eu statws gweithredol a'u cronfeydd ar wahân. Ni ddylid ychwanegu'r ffigurau hyn at y banc tir cerrig mâl ond dylid eu diogelu mewn polisi i sicrhau parhad y cyflenwad at ddibenion codi waliau, cadwraeth a phensaernïol.
- **Cysylltiad â polisi cyflenwad** - Gwneud yn glir y bydd canlyniadau monitro'n cyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau ynghylch dyraniadau cyflenwad mwynau, rhyddhau ardaloedd wedi'u diogelu, ac addasu clustogfeydd.
- **Sicrhau tryloywder gweithredol** - Defnyddio allbynnau monitro i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am sefyllfa cyflenwad mwynau Ynys Môn, gan ddiogelu data masnachol sensitif gan weithredwyr ar yr un pryd. Bydd dangosyddion monitro yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyson â chanllawiau rhanbarthol DTRh 3 pan fyddant ar gael.